OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 128 (Cy. 16)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Glangwili i Dderwen-fawr, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Ionawr 2014* |
| *Yn dod i rym* | *29 Ionawr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llandeilo – Caerfyrddin (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ionawr 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Glangwili i Dderwen-fawr, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 29 Ionawr 2014 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A40 yn Sir Gaerfyrddin a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, gyrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, gyrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**Atal**

**6.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffyrdd (Terfyn Cyflymder 40 m.y.a.) (Rhif 1) (Cymru) 1967**(3)** drwy hyn wedi eu hatal i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7**. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 23 Ionawr 2014

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1967/1353

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Glangwili hyd at bwynt 73 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Abergwili.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 71 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Abergwili hyd at bwynt 205 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd Heol yr Orsaf, Nantgaredig â’r B4310.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 175 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â’r ffordd Dosbarth 3 i Abergorlech hyd at bwynt 580 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth i Langathen.

### ATODLEN 2
### Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Glangwili hyd at bwynt 580 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth i Langathen.